**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol

**Siambr y Cyngor, Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Gwener, 13 Ebrill 2018 am 10.00 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd P M Matthews (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | J P Curtice | P Downing |
| V M Evans | S J Gallagher | P Lloyd |
| H M Morris | C L Philpott | B J Rowlands |
| L G Thomas | L V Walton | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Lynda Anthony | Swyddog Adrannol, Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch |
| Aled Gruffydd | Cyfreithiwr |
| Paula Livingstone | Team Leader, Housing and Public Health |
| Kath Thomas | Licensing Officer |
| Samantha Woon | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr):

---

**96 Derbyn datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y cysylltiadau canlynol:

Y Cynghorydd S J Gallagher - Personol - Cofnod 101 - Deddf Trwyddedu HMO, apêl i'r Tribiwnlys Eiddo Preswyl - AL - rwy'n adnabod yr ymgeisydd.

Y Cynghorydd C L Philpott - Personol - Cofnod 102 - Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847 - Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 - Cais am Drwydded Gyfyngedig i Yrru Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat - SPW - sylweddolais fod gennyf wybodaeth flaenorol am y sefyllfa pan gyfeiriodd yr ymgeisydd at 'yr Esgob Gore'. Gadawodd y Cynghorydd C L Philpott cyn i'r penderfyniad gael ei wneud.

Y Cynghorydd L V Walton - Personol - Cofnod 101 - Deddf Trwyddedu HMO 2004, apêl i'r Tribiwnlys Eiddo Preswyl - AL - rwy'n adnabod yr ymgeisydd.

**97 Cofnodion.**

**Penderfynwyd** cytuno bod cofnodion y Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol a gynhaliwyd ar 9 Mawrth 2018 yn gofnod cywir.

## 98 Deddf Cydraddoldeb 2010 - Trefniadau ar gyfer Cymeradwyo Esemptiadau.

Cyflwynodd y Swyddog Adrannol - Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch adroddiad am gymeradwyo ceisiadau ar gyfer eithriadau meddygol rhag cludo teithwyr mewn cadeiriau olwyn yn y dyfodol.

Nodwyd y cefndir a'r gweithdrefnau, presennol ac arfaethedig gan yr aelodau.

Gofynnodd yr aelodau gwestiynau i'r swyddog a ymatebodd yn briodol.

**Penderfynwyd:**

1) **Cymeradwyo**'r cynigion a nodwyd ym mharagraff 4 yr adroddiad ac awdurdodi swyddogion i gymeradwyo eithriadau meddygol fel a ganlyn:

    a) Pan fydd gyrrwyr yn cyflwyno ceisiadau â chyfyngiad amser ac mae'r ddogfennaeth ategol yn foddhaol, cânt eu cymeradwyo gan swyddogion ar ran y Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol;
    b) Os ceir ymholiadau ynglŷn â chais neu os nad yw'r ddogfennaeth ategol yn foddhaol, bydd swyddogion trwyddedu'n cyfeirio'r cais i'r Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol am benderfyniad; a
    c) Bydd pob cais am dystysgrif eithriad meddygol heb gyfyngiad amser yn cael ei gyfeirio i'r Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol am benderfyniad.

## 99 Gwahardd y cyhoedd.

Gofynnwyd i'r Pwyllgor wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitemau busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad ar y sail eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel a nodir ym mharagraff gwahardd 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes a nodir yn yr adroddiad.

Ystyriodd y Bwrdd Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes lle'r oedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol fel a nodir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd** gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitemau busnes canlynol.

**(Sesiwn Gaeëdig)**

## 100 Trwyddedu Tai Amlfeddiannaeth - Deddf Tai 2004 - Apelio at Dribiwnlys Eiddo Preswyl - PA. (Er gwybodaeth)

Manylodd arweinydd y tîm ar yr wybodaeth gefndir mewn perthynas â Thrwydded i HMO, Deddf Tai 2004, Apêl i'r Tribiwnlys Eiddo Preswyl gan PA.

Gofynnodd yr aelodau gwestiynau i'r swyddog a ymatebodd yn briodol. Nodwyd y byddai adroddiad arall ynghylch canlyniad yr apêl yn cael ei gyflwyno i'r pwyllgor.

## 101 Trwyddedu Tai Amlfeddiannaeth - Deddf Tai 2004 - Apelio at Dribiwnlys Eiddo Preswyl - AL. (Er gwybodaeth)

Manylodd arweinydd y tîm ar yr wybodaeth gefndir mewn perthynas â Trwyddedu HMO, Deddf Tai 2004, Apêl i'r Tribiwnlys Eiddo Preswyl gan AL.

Gofynnodd yr aelodau gwestiynau i'r swyddog a ymatebodd yn briodol. Nodwyd y byddai adroddiad arall ynghylch canlyniad yr apêl yn cael ei gyflwyno i'r pwyllgor.

## 102 Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Tref 1847 - Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 - Cais am Drwydded Yrru Gyfyngedig ar gyfer Cerbyd Hacni a Hurio Preifat - SPW.

Manylodd y Swyddog Adrannol - Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch ar yr wybodaeth gefndir mewn perthynas â chais SPW am drwydded gyfyngedig i yrru cerbyd hacni a hurio preifat.

Esboniodd SPW yr amgylchiadau a oedd yn ymwneud â'r cais ac atebodd gwestiynau gan aelodau.

**Penderfynwyd cymeradwyo** cais SPW am drwydded gyfyngedig i yrru cerbyd hacni a hurio preifat **am 12 mis**.

<u>Rheswm dros y penderfyniad</u>

Er bod aelodau'r pwyllgor yn ymwybodol o'r cynnydd a wnaed gan SPW ers y digwyddiad, roeddent yn teimlo y byddai trwydded gychwynnol am 12 mis yn rhoi'r cyfle i SPW ddangos y bydd yn gallu rheoli sefyllfaoedd heriol yn y dyfodol.

## 103 Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Tref 1847 - Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 - Cais am Drwydded Yrru Gyfyngedig ar gyfer Cerbyd Hacni a Hurio Preifat - - JLC.

Manylodd y Swyddog Adrannol - Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch ar yr wybodaeth gefndir mewn perthynas â chais AGB am drwydded gyfyngedig i yrru cerbyd hacni a hurio preifat.

Gofynnodd yr aelodau gwestiynau i'r swyddog a ymatebodd yn briodol.

Esboniodd JLC, yng nghwmni Mr W, cynrychiolydd cyfreithiol, y sefyllfa mewn perthynas â'r mater ac atebodd gwestiynau gan aelodau.

**Penderfynwyd** y dylid **gwrthod** cais JLC am drwydded gyfyngedig i yrru cerbyd hacni a hurio preifat.

<u>Rheswm dros y penderfyniad</u>

Doedd y pwyllgor ddim yn teimlo bod JLC yn berson addas a phriodol i dderbyn trwydded gyfyngedig i yrru cerbyd hacni a hurio preifat gan ei fod wedi bod yn dwyllodrus wrth fethu cyflwyno sampl ac ni nodwyd arwydd o asthma yn yr archwiliad meddygol a gyflwynodd. Hefyd, nid oedd digon o amser wedi mynd heibio ers diwedd cyfnod y gwaharddiad.

**104 Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Tref 1847 - Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 - Cais am Drwydded Yrru Gyfyngedig ar gyfer Cerbyd Hacni a Hurio Preifat - JMP.**

Manylodd y Swyddog Adrannol - Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch ar yr wybodaeth gefndir mewn perthynas â chais JMP am drwydded gyfyngedig i yrru cerbyd hacni a hurio preifat.

Esboniodd JMP y sefyllfa mewn perthynas â'r mater ac atebodd gwestiynau gan aelodau.

Darllenodd y cyfreithiwr a oedd yn cynghori'r pwyllgor eirda cefnogol gan A C Jenkins, y darparwr gwasanaethau teithio.

**Penderfynwyd cymeradwyo** cais JMP am drwydded gyfyngedig i yrru cerbyd hacni a hurio preifat **am 12 mis**.

<u>Rheswm dros y penderfyniad</u>

Nododd y pwyllgor fod 15 mis wedi mynd heibio ers y drosedd ac roedd yn ymddangos bod JMP yn cymryd ei euogfarnau goryrru blaenorol o ddifrif.

**105 Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Tref 1847 - Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 - Gyrrwr Deuol - DAH.**

Dywedodd y Swyddog Adrannol - Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch fod DAH wedi methu dod i'r cyfarfod ac ni dderbyniwyd esboniad ganddo.

Penderfynodd yr aelodau ystyried y mater yn absenoldeb DAH.

Gofynnodd aelodau gwestiynau i'r swyddogion a ymatebodd yn briodol.

**Penderfynwyd:**

1) Ystyried y mater yn absenoldeb DAH; a
2) **Gwrthod** cais DAH i adnewyddo'r drwydded i yrru cerbyd hacni a hurio preifat.

<u>Rheswm dros y penderfyniad</u>

Roedd y pwyllgor o'r farn nad oedd DAH yn berson addas a phriodol am ei fod yn anonest pan gafodd ei drwydded gan nad oedd wedi datgan ei euogfarn ddiweddar ac ni chafwyd esboniad boddhaol gan DAH oherwydd ei absenoldeb.

**106 Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Tref 1847 - Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 - Cais i Ganiatáu Trwydded Cerbyd Hacni a Gyrrwr Preifat - TA.**

Manylodd y Swyddog Adrannol - Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch ar yr wybodaeth gefndir mewn perthynas â chais TAA am drwydded gyfyngedig i yrru cerbyd hacni a hurio preifat.

Gofynnodd yr aelodau gwestiynau i'r swyddogion a ymatebodd yn briodol.

Esboniodd TAA y sefyllfa mewn perthynas â'r mater ac atebodd gwestiynau gan aelodau.

**Penderfynwyd:**

1) **Cymeradwyo** cais TAA am drwydded gyfyngedig i yrru cerbyd hacni a hurio preifat **am 12 mis**; ac
2) O fewn 3 mis ar ôl cymeradwyo'r drwydded, bydd meddyg teulu TAA yn cyflwyno cadarnhad ysgrifenedig i'r Is-adran Drwyddedu sy'n nodi bod TAA yn parhau i fodloni Safonau Meddygol Grŵp 2;
3) Gofyn i TAA gyflwyno tystysgrif feddygol foddhaol flynyddol i'r awdurdod trwyddedu cyn adnewyddu'r drwydded.

**107 Y Diweddaraf am y Camau Gweithredu Uniongyrchol. (Er gwybodaeth)**

**Nodwyd** y diweddaraf am y camau gweithredu uniongyrchol.

Daeth y cyfarfod I ben am 12.20 pm

**Cadeirydd**